## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHFAN CWMBRÂN I GYLCHFAN PONT-Y-PŴL, TORFAEN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Cwmbrân a Chylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Cwmbrân hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Pont-y-pŵl. Ni fydd y gerbytffordd tua'r gogledd a'r gerbytffordd tua'r de ar gau ar yr un pryd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A4042 tua'r de, yr A48 Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol Casnewydd tua'r gogledd-ddwyrain i Gyfnewidfa Coldra, yr A449 tua'r gogledd i Gyfnewidfa Rhaglan, yr A40 tua'r gorllewin i Gylchfan Hardwick, y Fenni a'r A4042 tua'r de: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Dylai cerbydau'r gwasanaethau brys sy'n teithio tua'r gogledd ddilyn Heol Casnewydd tua'r dwyrain ac yna tua'r gogledd tuag at New Inn, The Highway tua'r gogledd, Ffordd Brynbuga a Rockhill Road tua'r gorllewin a'r A472 tua'r de-ddwyrain i ailymuno â'r A4042 wrth Gylchfan Pont-y-pŵl: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 11 Awst 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) rhwng 11 a 17 Awst 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

## THE A4042 TRUNK ROAD (CWMBRAN ROUNDABOUT TO PONTYPOOL ROUNDABOUT, TORFAEN) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road between Cwmbran Roundabout and Pontypool Roundabout, Torfaen.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Cwmbran Roundabout to its junction with the southern side of Pontypool Roundabout. The northbound and southbound carriageways will not be closed at the same time.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A4042, north-eastbound A48 Newport Southern Distributor Road to the Coldra Interchange, northbound A449 to Raglan Interchange, westbound A40 to Hardwick Roundabout, Abergavenny and southbound A4042: vice versa for southbound vehicles.

Northbound emergency services vehicles should follow the eastbound then northbound Newport Road towards New Inn, northbound The Highway, westbound Usk Road and Rockhill Road and south-eastbound A472 to re-join the A4042 at Pontypool Roundabout: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 11 August 2025. The temporary prohibition is expected to operate overnight (20:00 – 06:00 hours) from 11 – 17 August 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**M J CLARKE**
Transport
Welsh Government